OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 2237 (Cy.199)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Clefydau Penodedig (Hysbysu a Chigydda) (Cymru) 2006

Wedi'i wneud	- -	*16 Awst 2006*
Yn dod i rym	- -	*29 Awst 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 15(4), 32(2) a 88(2) Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddo:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Clefydau Penodedig (Hysbysu a Chigydda) (Cymru) 2006.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 29 Awst 2006.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Gorchymyn Clefydau Penodedig (Hysbysu a Chigydda) 1992

2. Yn erthygl 2(1) (cymhwyso adran 32 Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981) Gorchymyn Clefydau Penodedig (Hysbysu a Chigydda) 1992(**2**) ar ôl "Epizootic haemorrhagic virus disease" mewnosoder "Equine infectious anaemia".

Diwygio Gorchymyn Clefydau Penodedig (Hysbysu) 1996

3. Yn Rhan I o Atodlen 1 (Clefydau Penodedig) Gorchymyn Clefydau Penodedig (Hysbysu) 1996 (**3**) ar ôl "Epizootic haemorrhagic virus disease" mewnosoder "Equine infectious anaemia".

(**1**) 1981 p.22, fel y'i diwigiwyd gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002 (p.42), ac O.S. 2003/1734. Trosglwyddwyd pwerau Ysgrifennydd Gwladol Cymru, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol") yn rhinwedd O.S. 1999/672. Trosglwyddwyd pwerau Ysgrifennydd Gwladol yr Alban i'r Gweinidog Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan O.S. 1999/3141 ac yna fe'u trosglwyddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan O.S. 2002/794. Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i'r Cynulliad Cenedlaethol gan O.S. 2004/3044.

(**2**) O.S. 1992/3159, a ddiwigiwyd gan O.S. 2003/130; mae offerynnau diwygio eraill, nad ydynt yn berthnasol.

(**3**) O.S. 1996/2628; Offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1998/1645 a 2003/130.